Image not found or type unknown

# Cynllun gweithlu gofal uniongyrchol: 2022 i 2025

Ein cynllun i gefnogi gweithwyr gofal uniongyrchol i deimlo eu bod yn cael gofal, yn gweithio mewn diwylliant tosturiol a chynhwysol, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu gwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Medi 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/strategaeth-gweithlu/cynllun-gweithlu-gofal-uniongyrchol-2022-i-2025 am y fersiwn diweddaraf.

**Ein gweledigaeth:** rydym eisiau gwneud gwahaniaeth positif i ofal a chymorth yng Nghymru ar gyfer plant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

## Cyflwyniad

Rydym wedi datblygu'r cynllun gweithlu gofal uniongyrchol hwn mewn ymateb i gam gweithredu penodol yn *Cymru Iachach – Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Dylai gofal cymdeithasol ddarparu gofal wedi'i bersonoli yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ein nod yw "meithrin hyder yn y gweithlu, ac mae arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol" wrth wraidd ein cynllun gweithlu gofal uniongyrchol.

Mae gofal cymdeithasol yn newid oherwydd bod gan bobl anghenion iechyd a gofal mwy dybryd. Mae angen i ni ymateb i'r angen hwn nawr ac yn y dyfodol.

Mae angen i ni gael pobl ofalgar sydd â'r gwerthoedd iawn, sy'n aros yn y sector am amser maith. Mae angen iddyn nhw fod yn ymroddedig i gefnogi bywydau bob dydd y bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw. Mae angen i ni gael pobl sy'n gallu addasu a bod yn hyblyg gyda nifer o sgiliau gwahanol.

Mae angen i ni ddatblygu ffyrdd o gynnal ein gwasanaethau sy'n bodloni ein heriau. Mae angen i'r rhain ddefnyddio cyfleoedd ar gyfer dull integredig ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Y cynllun gweithlu hwn yw'r cam nesaf yn ein gwaith gyda'r sector, er mwyn newid sut rydym yn:

- rheoleiddio

- canolbwyntio’n fwy ar lesiant ac iechyd meddwl positif y gweithlu
- datblygu sgiliau a gwybodaeth i ateb y galw yn y dyfodol
- defnyddio technoleg yn well
- adeiladu a gwella cyfiawnder cymdeithasol
- edrych ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu
- rhoi cymorth strategol ac ymarferol ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol.

Rydym eisiau i’r cynllun hwn gefnogi gweithwyr gofal uniongyrchol i deimlo eu bod yn cael gofal, yn gweithio mewn diwylliant tosturiol a chynhwysol, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu gwaith.

Mae gofal uniongyrchol yn cynnwys:

- gofal preswyl
- gofal cartref
- byw â chymorth
- gwasanaethau dydd
- gofal maeth
- gwasanaethau lleoli oedolion
- gofal a ddarperir gan gynorthwywyr personol.

Mae hyn ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol plant ac oedolion yng Nghymru.

Mae hwn wedi bod, ac yn dal i fod, yn gyfnod heriol iawn i bawb wrth i ni gyd newid i ffyrdd newydd o weithio. Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i weithio gyda ni i'n helpu i ddatblygu'r cynllun gweithlu hwn. Mae eich mewnbwn, eich adborth a’ch cefnogaeth wedi bod yn werthfawr iawn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru a’n partneriaid i roi’r cynllun gweithlu hwn ar waith.

## Datblygu’r cynllun gweithlu gofal uniongyrchol

I ddechrau datblygu’r cynllun gweithlu gofal uniongyrchol, fe wnaethom gyfweld â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol.

Fe wnaeth eu mewnbwn a’u hadborth ein helpu i lunio’r drafft cyntaf a ysgrifennwyd yng ngwanwyn 2021. Dyna ddechrau cyfnod hir o weithio gyda:

- y gweithlu gofal uniongyrchol ar draws darparwyr statudol, preifat a gwirfoddol
- asiantaethau partner
- cyrff proffesiynol
- undebau llafur
- cyflogwyr
- arweinwyr a chomisiynwyr y gweithlu.

Rydym yn falch o ddweud bod y mwyafrif llethol o’r bobl y buom yn siarad â nhw yn ffafrio’r uchelgais, y themâu a’r camau gweithredu rydym yn eu hargymell.

I gasglu eu barn, fe wnaethom:

- gasglu 345 o ymatebion i arolwg a gwblhawyd ar-lein
- cynnal gweithdai gyda 180 o bobl
- cynnal 30 o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid gofal uniongyrchol.

## Canfod a defnyddio heriau a chyfleoedd

Fel rheoleiddiwr y gweithlu ar gyfer gofal cymdeithasol, rydym yn gyfrifol am ddatblygu’r gweithlu gofal cymdeithasol a’r blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd

yn cefnogi ymchwil gofal cymdeithasol a helpu i wneud ein gwasanaethau yn well yng Nghymru.

Rydym eisiau datblygu a defnyddio sgiliau'r gweithlu gofal, i gefnogi pawb sy'n defnyddio gofal a chymorth i ofalu am eu hiechyd a'u lles ac i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Yn y cyd-destun hwn, ac mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), fe wnaethom ddatblygu'r strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol gyntaf. Wedi'i lansio ym mis Hydref 2020, mae'n dangos ein rhaglen waith uchelgeisiol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Mae gofal yn bwysig i ni gyd. Mae'n effeithio ar bob un ohonom ar ryw adeg. Rydym eisiau gwneud gwahaniaeth positif i ofal a chymorth yng Nghymru ar gyfer plant, oedolion, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Dylai plant ac oedolion ym mhob rhan o Gymru allu dibynnu ar ofal cymdeithasol a gofal plant gwych, i'w cefnogi i fyw'r bywydau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae angen i ni gefnogi'r bobl sy'n darparu'r gofal hwnnw. Mae angen i ni:

- wneud yn siŵr bod digon o bobl â'r sgiliau a'r profiad iawn i roi'r gofal gorau posib
- i ofalu am eu hiechyd a'u lles.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni hefyd gofio am anghenion gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl, sy'n chwarae rhan enfawr wrth ofalu a chefnogi pobl.

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'n gwaith yn y maes hwn, yn enwedig:

- parhau i gefnogi Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr
- darparu dysg a datblygu'r gweithlu sy'n codi ymwybyddiaeth o rôl gofalwyr

- hyrwyddo hawliau gofalwyr di-dâl i'r lefelau perthnasol o gymorth, gan gynnwys asesiadau gofalwyr, i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw y lefelau cywir o gymorth i wneud eu cyfraniad pwysig.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol ar gynnydd i fodloni'r heriau parhaus a achoswyd gan y pandemig Covid-19 ac yn wynebu mwy o alw am wasanaethau a chymorth.

Rydym yn deall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y gweithlu gofal uniongyrchol. Mae hefyd yn effeithio ar bobl sy'n rheoli ac yn gorfod addasu gwasanaethau, wrth iddyn nhw ymateb i heriau sy'n newydd i ni gyd.

Mae angen i gynllun y gweithlu roi ystyriaeth i themâu ehangach, trawsbynciol, fel:

- cynhwysiant ac amrywiaeth
- dewis iaith
- llesiant y gweithlu
- yr agenda amgylcheddol, gan gynnwys newid hinsawdd.

Mae'r rhain yn ganolog i'n ffyrdd o weithio. Mae gennym naill ai asesiadau effaith ar waith fel rhan o gamau gweithredu cyfredol, neu byddwn yn ystyried y rhain pan fyddwn yn cynllunio atebion newydd.

Pan oeddem yn datblygu'r cynllun ymgysylltu hwn yn 2021, gwnaethom wrando ar bryderon a sylwadau am yr heriau a'r goblygiadau ar gyfer y gweithlu o ran:

- parch cydradd
- cyflenwad a chynaliadwyedd y gweithlu
- y pwysau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig.

Rydym wedi cydnabod ers tro bod angen dull cenedlaethol o fynd i'r afael â sicrwydd swyddi ac incwm. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, i wneud hynny.

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru *Gwella iechyd a gofal cymdeithasol (Covid-19 edrych ymlaen)*, a dderbyniodd gyngor a chefnogaeth y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, eisiau i barch ymhlith gweithiwr yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol fod yr un peth. Gwnaeth y gwaith hwn gynnydd cychwynnol pan ddechreuodd rhai o'r gweithlu dderbyn y cyflog byw gwirioneddol ym mis Ebrill 2022.

Mae rhaglen grant datblygu gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn gronfa fawr i helpu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol ddatblygu yn Nghymru. Mae'r grant yn helpu i ariannu amrywiaeth o raglenni gwaith, gan gynnwys dysgu, datblygu a chymwysterau. Ond rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud i gyflawni uchelgais strategaeth y gweithlu a'r cynllun gweithlu hwn.

Rydym wedi datblygu camau gweithredu'r cynllun hwn drwy ddefnyddio cyd-gynhyrchu, ac wedi defnyddio ffordd gref, gyfredol y sector o weithio mewn partneriaeth.

Mae llwyddiant y cynllun hwn yn dibynnu ar ofalu am a datblygu'r partneriaethau hyn, ac mae angen cynnwys y camau gweithredu wrth gynllunio'r gweithlu'n lleol. Bydd y rhain yn ein helpu i nodi heriau'r gweithlu y gallwn eu datrys yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion uchod a chanolbwyntio ar welliannau ar draws saith thema yn y cynllun gweithlu hwn. Rydym eisiau helpu i ddatrys materion sy'n deillio o ganfod y bobl iawn a'u cadw, a helpu i dyfu'r gweithlu.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i barhau i fynd i'r afael â'n heriau cyfredol, a'r heriau rydym yn rhagweld sydd o'n blaenau, a chynnal ansawdd y gofal a'r cymorth i bobl ym mhob cymuned.

Mae angen i'r cynllun hwn fwrw golwg ar ein gweithredoedd yn y tymor canolig i'r hirdymor, ac rydym eisoes wedi dechrau ar rai ohonyn nhw. Bydd y rhain yn arwain at weithlu gofal uniongyrchol gwell, cynaliadwy.

Fe wnaethom gynllunio'r cynllun drwy roi ystyriaeth i bwysau ar y system gyfan. Ond rydym yn cydnabod bod angen rhoi sylw ar unwaith i anghenion y gweithlu gofal cartref.

Eir i'r afael â heriau mwyaf dybryd y gweithlu gofal cartref gan Lywodraeth Cymru a phartneriaethau. Fel partner allweddol, rydym wedi ymrwymo i helpu i ddatrys heriau sydd angen sylw ar unwaith.

Mae angen i'r cynllun hwn adlewyrchu camau gweithredu cynlluniau gweithlu eraill sydd wedi'u datblygu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl a'r proffesiwn gwaith cymdeithasol. Mae'n hanfodol bod y cynllun hwn, a diwygiadau'r dyfodol, yn ystyried y camau gweithredu clir yn *Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru.

## Proffil: y gweithlu gofal uniongyrchol

- 91,000 o bobl yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol
  - 72,155 o bobl yn gweithio mewn gwasanaethau gofal uniongyrchol
  - 81 y cant yn fenywod
  - 19 y cant yn ddynion
  - 61 y cant yn gweithio mewn gwasanaethau a gomisiynir
  - 39 y cant yn gweithio mewn awdurdodau lleol

- 78 y cant o weithwyr â chontractau parhaol
- 40 y cant o weithwyr yn gweithio 36 awr neu’n fwy bob wythnos
- 90 y cant o weithwyr â chefndir ethnig gwyn
- 40 y cant o weithwyr â rhywfaint o allu yn y Gymraeg
- £12 miliwn yn cael ei roi i gefnogi anghenion dysgu, datblygu a chymwysterau'r gweithlu drwy grant blynyddol

## Strwythur y cynllun gweithlu

Mae’r cynllun gweithlu wedi’i rannu’n saith thema.

Mae gan bob thema ddatganiad o’n nodau, sef uchelgeisiau, o dan y thema honno.

Daw’r themâu ac uchelgeisiau o ‘*Cymru iachach: Ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol’.*

Mae gan bob datganiad uchelgais set o ddatganiadau “Rydw i”. Mae ein gwaith gyda’r sector yn cadarnhau bod y datganiadau hyn yn disgrifio’r effaith bositif rydym eisiau ei chael ar rywun sy’n gweithio ym maes gwasanaethau gofal uniongyrchol neu’n eu rheoli dros y tair blynedd nesaf.

Byddwn yn mesur ein cynnydd drwy weithio gyda’r gweithlu ac yn siarad â nhw yn ystod y tair blynedd nesaf. Byddwn yn dechrau hyn gydag arolwg llawn o’r gweithlu yn 2023.

Gelwir y camau gweithredu yn y cynllun yn ddatganiadau “Byddwn Ni”. Mae ganddyn nhw linell amser sy’n dangos pryd byddwn ni'n cwblhau pob cam gweithredu.

Mae rhai camau gweithredu yn mynd rhagddynt. Nid oes gan y rhain ddyddiad gorffen oherwydd ei fod yn rhan o waith bob dydd. Byddwn yn dal i adrodd ar y rhain i weld faint o gynnydd rydym wedi'i wneud ac a oes angen i ni newid yr hyn a wnawn. Byddwn yn adrodd drwy ddefnyddio ein prosesau llywodraethu a chraffu arferol.

Mae'r camau gweithredu yn cyd-fynd â'n cynllun strategol, yn enwedig canlyniadau 1,2,3,5,6 a 7.

Mae angen i gynllun y gweithlu fod yn hyblyg fel y gallwn adolygu ein cynnydd ym mhob un o'r tair blynedd nesaf. Byddwn yn rhannu crynodeb o gynnydd y datganiadau “Byddwn Ni” gyda'r gweithlu gofal uniongyrchol. Mae'r rhain yn dangos yr hyn a wnawn i'n helpu i gyflawni ein nodau o dan bob un o'r saith thema.

Dyma enghraifft o sut mae cynllun y gweithlu gofal uniongyrchol yn edrych o dan bob un o'r saith thema:

- **Uchelgais:** “Erbyn 2030, bydd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi lle bynnag y byddan nhw'n gweithio.” – Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- **Datganiad “Byddwn Ni”:** “Byddwn ni'n lansio ein fframwaith llesiant i weithwyr ar gyfer eich sefydliad er mwyn helpu i reoli a monitro pob agwedd ar lesiant gweithwyr yn y gwaith yn gyson.” – ein cynllun gweithlu
- **Datganiad “Rydw i”:** “Rwy'n teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn y gwaith”.

## Egwyddorion y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol

Mae gan y cynllun gweithlu gofal uniongyrchol bum egwyddor. Rydym eisiau gweithlu gofal uniongyrchol sy’n:

- teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac yn cael ei werthfawrogi
- yn meddu ar y gwerthoedd, yr ymddygiad, y wybodaeth, y sgiliau a’r hyder iawn i ddarparu gofal wedi’i bersonoli mor agos i gartref â phosib
- yn ddigon mawr a chynaliadwy i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ymatebol sy’n diwallu anghenion pobl Cymru
- gweithio mewn amgylchedd lle mae cefnogi llesiant gweithwyr yn hanfodol, fel y gall pobl a sefydliadau ffynnu
- adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth, y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol.

## Thema 1: Gweithlu sydd wedi ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach

**Uchelgais: erbyn 2030, bydd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi lle bynnag y byddan nhw’n gweithio.**

**Datganiadau “Rydw i”**

- “Rydw i’n teimlo’n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn y gwaith.”
- “Rydw i’n cael fy nhrin yn deg ac yn cael fy ystyried fel unigolyn.”
- “Fel rheolwr, rydw i’n gallu cael mynediad at gymorth i ddatblygu gwytnwch a llesiant fy hun a gwytnwch a llesiant fy nhîm.”
- “Rydw i'n teimlo bod y tîm o'r maint iawn i ddiwallu anghenion pobl sy’n defnyddio gofal a chymorth a chaiff swyddi gwag eu llenwi’n gyflym.”

- “Rydw i’n cael fy ngwerthfawrogi a chaiff fy nghyfraniad ei werthfawrogi wrth wneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl.”
- “Rydw i’n cael fy ysgogi, fy nghefnogi a’m hannog i berfformio ar fy ngorau i ddarparu gofal a chymorth i bobl.”

**Datganiadau “Byddwn Ni”**

- “Byddwn ni’n lansio ein fframwaith iechyd a lles i helpu sefydliadau i reoli a monitro pob agwedd ar lesiant gweithwyr yn y gwaith yn gyson.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n datblygu adnoddau i reolwyr i ddechrau asesu pa mor dda maen nhw’n bodloni’r ymrwymiadau llesiant yn y gwaith, sy’n ganolog i’r fframwaith iechyd a lles.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu’r cyflog byw gwirioneddol. Byddwn hefyd yn hyrwyddo cyflog gwell a mentrau i gefnogi gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a chynnwys cyflog cyfartal gydag iechyd a gwell cydnabyddiaeth a gwobrwyo i’r sector gofal cymdeithasol.”
  **Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo**

- “Byddwn ni’n parhau i gynnig adnoddau a chymorth llesiant, gan gynnwys cymorth dysgu a datblygu gan gymheiriaid, gwybodaeth ac adnoddau a’r cerdyn gweithiwr gofal.”
  **Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo**
- “Byddwn ni’n cefnogi’r broses o weithredu gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sy’n cynnig cymorth llesiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2022**

- “Byddwn ni’n cynnal yr arolwg cyntaf ar draws y sector gyfan i’n helpu i ddod o hyd i ffyrdd priodol a chymesur o barhau i gefnogi’r gweithlu gofal uniongyrchol, ei lesiant a’i ymdeimlad o werth.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

## Thema 2: denu a recriwtio

**Uchelgais: erbyn 2030, bydd iechyd a gofal cymdeithasol wedi ennill ei blwyf fel brand cryf, adnabyddus ac yn sector o ddewis ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol.**

**Datganiadau “Rydw i”**

- “Rydw i’n cael cefnogaeth i'm helpu i ddeall pa swyddi y gallwn i eu gwneud o fewn gofal uniongyrchol.”
- “Mae gen i agwedd bositif a rydw i wedi ymrwymo i ofalu am eraill, a rydw i eisiau cynyddu fy nealltwriaeth ynglŷn â chael gyrfa mewn gofal cymdeithasol.”
- “Rydw i’n teimlo bod prosesau recriwtio yn dryloyw, yn amserol ac yn deg.”
- “Mae gen i fynediad at sesiynau cynefino sydd wedi’u cynllunio’n dda, sy'n gwneud i fi deimlo bod gen i'r cymorth sydd ei angen arnaf i ddod yn gwbl weithredol yn gyflym ac yn ddiogel yn fy swydd.”

**Datganiadau “Byddwn Ni”**

- “Byddwn ni’n parhau i ddatblygu a gwella gwefan Gofalwn Cymru, hyrwyddo gwaith y gweithlu gofal uniongyrchol, y rolau sydd ar gael, a gwella’r ffordd y mae’r sector yn cael ei weld.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023 (byddwn yn adolygu hyn bob blwyddyn)**

- “Byddwn ni’n parhau i gefnogi rhaglen ‘cyflwyniad i ofal cymdeithasol’ fel ffordd i mewn i’r sector.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n rhoi cymorth ac arweiniad ychwanegol (gan gynnwys porth swyddi cenedlaethol) i holl ddarparwyr gofal i ganfod a chael pobl o wahanol oedrannau i rôl mewn gofal cymdeithasol.”
  **Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo**

- “Byddwn ni’n parhau i ariannu a hyrwyddo’r swyddi cysylltydd gyrfaoedd gofal yn y saith rhanbarth o Gymru, i gysylltu ceiswyr gwaith, lansio adnoddau mewn ysgolion a hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol.”
  **Byddwn yn adrodd ar hyn bob blwyddyn fel rhan o’n proses adrodd ar grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru**

- “Byddwn ni’n datblygu adnoddau recriwtio sy’n seiliedig ar werthoedd er mwyn gwella’r ffordd rydym yn dod o hyd i bobl ac yn recriwtio ar gyfer rolau gofal cymdeithasol.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2022**

- “Byddwn ni’n hyrwyddo prentisiaethau fel llwybr i mewn i’r sector.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n parhau i gefnogi rôl llysgennad Gofalwn Cymru oddi mewn i’r sector i helpu i addysgu pobl (gan gynnwys ysgolion a cholegau) ynglŷn â’r opsiynau gyrfa gwahanol a chyfleoedd i symud ymlaen.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

## Thema 3: Modelau gweithlu di-dor

**Uchelgais: erbyn 2030, modelau gweithlu aml-broffesiynol ac aml-asiantaeth fydd y norm.**

**Datganiadau “Rydw i”**

- “Rydw i’n deall lefel y cyfrifoldeb a’r math o broses gwneud penderfyniadau sy’n ofynnol ohonof fi wrth weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill.”
- “Rydw i’n deall lefel yr atebolrwydd a’r annibyniaeth sy’n ofynnol ohonof fi yn fy rôl fel rhan o dîm aml-asiantaeth neu wrth weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill.”
- “Rydw i’n gallu dibynnu ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol a phartneriaid proffesiynol eraill i ddeall fy rôl a sut mae sefydliadau gofal cymdeithasol yn gweithio.”
- “Rydw i’n cael fy nghefnogi i feithrin perthnasoedd gwaith da rhwng timau cymwysedig a thimau nad ydynt yn gymwysedig.”
- “Rydw i’n deall y rôl y gallaf ei chwarae i wneud yn siŵr bod plant ac oedolion sy’n agored i niwed yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw pan fyddaf yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill.”
- “Mae gen i’r un lefelau o barch ag aelodau eraill o staff mewn asiantaethau eraill a allai fod yn gweithio ochr yn ochr â fi.”

**Datganiadau “Byddwn Ni”**

- “Byddwn ni’n cwblhau adnoddau sy'n helpu i hyfforddi a datblygu timau rhyddhau o’r ysbyty (iechyd a gofal cymdeithasol) i gyflawni sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau gydag unigolion a theuluoedd.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn hydref 2022**

- “Byddwn ni’n datblygu adnoddau sy’n dangos yn glir y llwybrau gyrfaoedd sydd ar gael i bob aelod o staff yn y gweithlu gofal uniongyrchol.”

**Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- “Gyda’n partneriaid byddwn ni’n datblygu set o safonau hyfforddi diogelu cenedlaethol. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod gan staff yr hyfforddiant a’r adnoddau sydd eu hangen pan fyddan nhw’n gweithio gydag eraill i roi gofal a chymorth ac i gynnal dyletswyddau diogelu.”

  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn hydref 2022**
- “Byddwn ni’n gweithio gydag Addysg Iechyd yng Nghymru i ddatblygu a chefnogi rhaglen Hwylusydd Addysg Cartrefi Gofal i wneud y mwyaf o gyfleoedd nyrsio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol (gan gynnwys cefnogi eu hanghenion dysgu a datblygu).”

  **Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo**

## Thema 4: meithrin gweithlu sy’n barod yn ddigidol

**Uchelgais: erbyn 2030, bydd galluoedd digidol a thechnolegol y gweithlu wedi’u datblygu’n dda ac yn cael eu defnyddio’n eang i wneud y gorau o’r ffordd rydym yn gweithio, i’n helpu i ddarparu’r gofal gorau posib i bobl.**

**Datganiadau “Rydw i”**

- “Rydw i’n deall sut gallaf ddefnyddio technoleg i helpu’r bobl rwy’n eu cefnogi.”
- “Rydw i’n deall pwysigrwydd diogelu data a pham ei fod yn berthnasol i sut rydw i’n defnyddio ac yn cofnodi’r wybodaeth electronig ac ysgrifenedig sydd gennyf am y bobl rwy’n eu cefnogi.”
- “Mae gen i fynediad at dechnoleg ddibynadwy, effeithiol a diogel.”

- “Rydw i’n teimlo bod fy mywyd gwaith o ddydd i ddydd yn well diolch i dechnoleg sy’n hawdd ei defnyddio, sy’n arbed amser, ac yn cael effaith bositif ar y bobl rwy’n eu cefnogi.”
- “Rydw i’n hyderus, yn gymwys ac yn gallu gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol yn fy rôl ac yn defnyddio ei photensial i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gofal wedi’i bersonoli.”
- “Rydw i’n gallu rheoli a monitro fy natblygiad proffesiynol drwy ddefnyddio adnoddau digidol a thechnoleg.”

**Datganiadau “Byddwn Ni”**

- “Byddwn ni’n cynnal ymchwil i ddeall y ddarpariaeth dysgu digidol, yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y cyflenwad dysgu a dysgwyr, ac yn cyhoeddi argymhellion i weithredu arnyn nhw."
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn hydref 2022**

- “Byddwn ni’n cefnogi datblygiad cyrsiau e-ddysgu Cymraeg gyda phartneriaid, i helpu i godi ymwybyddiaeth a sgiliau iaith o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n cefnogi’r gweithlu i ddatblygu eu sgiliau digidol ac i wella mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i wireddu hynny. Mae’n flaenoriaeth genedlaethol yng ngrant rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru."
  **Byddwn yn ystyried hyn bob blwyddyn fel rhan o’n proses adrodd ar grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru**
- “Byddwn ni’n datblygu ein platfform dysgu digidol ac yn profi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ‘Unwaith i Gymru’, gan gynnwys cymorth llesiant, atal a rheoli heintiau, a lleihau arferion cyfyngol.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023 (byddwn yn adolygu**

**hyn bob blwyddyn)**

- “Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid i ganfod mwy o ffyrdd i wella sgiliau digidol y gweithlu.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn haf 2022 (fel rhan o’r broses o adrodd ar grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yna byddwn yn adolygu hyn bob blwyddyn)**

## Thema 5: addysg a dysgu gwych

**Uchelgais: erbyn 2030, bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn darparu sgiliau a’r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru.**

**Datganiadau “Rydw i”**

- “Rydw i’n gweithio i sefydliad sy’n rhoi’r hyfforddiant a’r gefnogaeth angenrheidiol i fi.”
- “Rydw i’n gallu ennill cyflog tra’n derbyn hyfforddiant, cael cymwysterau a dysgu sgiliau sy’n benodol i’r swydd.”
- “Rydw i’n gweithio i sefydliad sy’n fy annog ac yn fy helpu i feithrin fy hyder, fy nghymhelliant a’m sgiliau.”
- “Mae gen i'r cymysgedd iawn o ddysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith sy'n gweithio orau i fi a fy nghyflogwr.”
- “Rydw i’n cael fy nghefnogi i setlo yn fy rôl a chael mynediad at gyngor a gwybodaeth i ddeall yr hyn sy’n ddisgwyliedig ohonof i er mwyn dod yn effeithlon ac effeithiol yn gyflym”.
- “Mae gen i fynediad at ddysgu hyblyg sy'n ategu'r ffordd rwy'n dysgu orau ac yn helpu i wella fy sgiliau, fy ngwybodaeth a’m hyder.”

**Datganiadau “Byddwn Ni”**

- “Byddwn ni’n adolygu cyllid grant datblygu gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys y grant hwyluso rhanbarthol, yn unol â chanfyddiadau ac argymhellion strategaeth y gweithlu, heriau’r sector a’r gwersi a ddysgwyd, fel bod cynllun a darpariaeth y dyfodol yn ddefnyddiol i'r sector.”
  **Byddwn yn adolygu ac yn gwirio hyn bob blwyddyn**

- “Byddwn ni’n datblygu ac yn cyflwyno rhaglenni dysgu a datblygu i roi’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid ar waith.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- “Byddwn ni’n buddsoddi mewn dysgu i helpu i oresgyn a phontio bylchau a achoswyd gan heriau ar draws y sector. Bydd hyn yn cynnwys mwy o gyfleoedd dysgu i ddechreuwyr newydd.”
  **Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar hyn bob blwyddyn**

- "Byddwn ni’n parhau i wneud fframweithiau sefydlu ar gael i reolwyr a staff, a datblygu adnoddau a chynnal gweithdai.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- “Byddwn ni’n datblygu adnoddau sy’n benodol i ofal cymdeithasol, fel bod mwy o bobl yn gallu datblygu sgiliau hanfodol mewn cyfathrebu a chymhwyso rhif.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- “Byddwn ni’n parhau i gefnogi’r rhai sydd yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac yn cyflawni pob cymhwyster galwedigaethol o lefelau 2 i 5, ac yn rhoi cymorth pwrpasol i gyflogwyr a darparwyr dysgu.”
  **Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo**

- “Byddwn ni’n adolygu sut rydym yn cefnogi pobl gofrestredig i gofnodi eu datblygiad proffesiynol parhaus yn hawdd, ac mewn ffordd hygyrch.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- “Byddwn ni’n parhau i hyrwyddo arferion da ar draws y sector, gan gynnwys drwy Y Gwobrau.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

## Thema 6: Arweinyddiaeth ac olyniaeth

**Uchelgais: erbyn 2030, bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol.**

**Datganiadau “Rydw i”**

- “Mae gen i berthynas waith ymddiriedus, barchus a gwerthfawr gyda fy rheolwr sy’n gyson, yn deg ac mae’n hawdd siarad â nhw.”
- “Rydw i’n gallu cael mynediad at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ystyrlon sy’n gwneud gwahaniaeth sylweddol i’r ffordd y gallaf gefnogi cydweithwyr a thimau i addasu i ffyrdd newydd o weithio.”
- “Rydw i’n gweithio i sefydliad lle mae arweinwyr yn deall ac yn parchu diwylliannau eraill, ac yn gallu arwain grŵp amrywiol o bobl.”
- “Mae gen i fynediad at gyfleoedd i gefnogi fy natblygiad fel darpar reolwr.”
- “Fel arweinydd, mae gen i fynediad at ystod o raglenni arweinyddiaeth a rheoli sy’n fy nghefnogi i greu ac i gynnal yr amodau i rymuso eraill i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn.”
- “Rydw i’n gweithio i sefydliad sy’n datblygu arweinwyr cynhwysol ar bob lefel yn y sector gofal cymdeithasol.”

**Datganiadau “Byddwn Ni”**

- “Byddwn ni’n parhau i gefnogi cymwysterau rheoli Lefel 4 a 5, sy’n cefnogi’r sector gofal uniongyrchol i ganfod a datblygu’r genhedlaeth nesaf o oruchwylwyr a rheolwyr”.
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- “Byddwn ni’n parhau i ddatblygu a chefnogi rhaglenni dysgu a datblygu pwrpasol i helpu arweinwyr a rheolwyr y presennol a’r dyfodol.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n parhau i gefnogi datblygiad gwefan Gwella i gadw adnoddau sy’n cefnogi arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol sy’n seiliedig ar yr egwyddorion arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.”
  **Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo**

- “Byddwn ni’n parhau i gefnogi’r broses o sefydlu rhwydweithiau i gymheiriaid ar gyfer rheolwyr cofrestredig ym maes gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus i wella llesiant a’u cefnogi i fod yn wydn.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn hydref 2022**
- “Byddwn ni’n parhau â’n rhaglenni dysgu a datblygu i helpu rheolwyr ac arweinwyr i fod yn wydn.”
  **Byddwn yn cyflwyno pedwar cwrs yn 2022 i 2023**

## Thema 7: Siâp a chyflenwad y gweithlu

**Uchelgais: erbyn 2030, bydd gennym weithlu cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth.**

**Datganiadau "Rydw i"**

- "Rydw i'n parchu ac yn gwerthfawrogi safbwyntiau'r unigolion, y teuluoedd a'r cymunedau rydw i'n gweithio gyda nhw."
- "Fel rheolwr, rydw i'n hyderus y gallaf recriwtio staff sydd â'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen arna i heb gyfyngu ar fy ngwasanaeth."
- "Rydw i'n gweithio gyda chydweithwyr sydd â'r sgiliau, y wybodaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau gofynnol fel ein bod yn y lle gorau i arloesi a darparu gofal a chymorth sy'n fwyfwy cymhleth."
- "Mae eraill yn gwrando arna i wrth drafod cymhlethdod a gwerth gofal uniongyrchol a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu cymorth sy'n ddiwylliannol berthnasol i bobl yn fy nghymuned leol."
- "Rydw i'n gweithio mewn lleoliad sy'n croesawu siaradwyr Cymraeg, yn parchu ieithoedd eraill ac yn ymdrechu i gynrychioli amrywiaeth y gymuned y mae'n ei gwasanaethu fel rhan o ddarparu gofal sydd wirioneddol yn canolbwyntio ar y person."
- "Rydw i'n parchu ac yn gwerthfawrogi rôl hanfodol gofalwyr di-dâl, mudiadau gwirfoddol a chymunedol fel partneriaid hirdymor wrth gefnogi iechyd a lles plant, teuluoedd ac oedolion yn fy nghymuned leol."

**Datganiadau "Byddwn Ni"**

- "Byddwn ni'n adolygu sut rydym yn bwrw ati i gynllunio'r gweithlu, a chreu adnoddau i helpu i ddatblygu cynllunio effeithiol ac amserol o ran y gweithlu."
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gwanwyn 2023**

- "Byddwn ni'n gwella ein dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol i helpu i lywio ein cynlluniau *Mwy na geiriau* a rhai ein partneriaid."
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn gaeaf 2022**

- “Byddwn ni’n parhau i ddatblygu a gwella ein porth data.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn hydref 2022 (byddwn yn ail-ymweld â hyn bob blwyddyn, gan ddefnyddio’r hyn rydym wedi’i ddysgu)**

- “Byddwn ni’n parhau i wella sut rydym yn casglu data gofal cymdeithasol a’i ddefnyddio er lles pobl sydd angen gofal a chymorth yng Nghymru.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn hydref 2022 (byddwn yn ail-ymweld â hyn bob blwyddyn, gan ddefnyddio’r hyn rydym wedi’i ddysgu)**

- “Byddwn ni’n parhau i helpu datblygiad y ffordd rydym yn casglu data’r gweithlu i wella’r broses o gynllunio’r gweithlu ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.”
  **Byddwn yn cwblhau hyn erbyn haf 2023**